YSGOL BRYNREFAIL

MELODŶ

Ar ôl cyfnod hir o ddisgwyl a gwylio adeilad yn cael ei adeiladu o'r newydd fe gafwyd agoriad swyddogol y bloc Cerdd newydd, sef Melodŷ, ar y 19eg Mawrth 2015. Cafwyd llu o westeion i ddathlu a gweld Y Cynghorydd Dewi Owen, Cadeirydd Cyngor Gwynedd a Mr Dafydd Roberts, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Brynrefail yn nodi'r digwyddiad trwy ddadorchuddio plac yng nghyntedd yr adeilad newydd.

Fe ddathlodd y disgyblion trwy gyflwyno blas ar lwyddiant diweddar yr ysgol trwy eitemau gan Gôr Disgyblion 7,8 a 9 sydd eisoes wedi ennill ei lle ar lwyfan eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili ar ddiwedd mis Mai.

Cafwyd eitemau hefyd gan Fand Pres Ysgol Brynrefail, hwythau hefyd wedi ennill ei lle ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili.

Yn fwy na dim fe welwyd gwerth y cyfleusterau newydd trwy gyflwyniad y Band Pres oherwydd bod un ystafell o fewn y bloc yn ddigon mawr i'w cartrefu yn gyfforddus. Ar hyd y blynyddoedd y mae staff Ysgol Brynrefail wedi cyflawni gwyrthiau cerddorol er yn defnyddio cyfleusterau anhwylus. O'r diwedd cânt gyfleusterau sydd yn deilwng o'u llwyddiannau.